CYFRES C11

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Barnwyr 6: 1-23
7: 1-23

ADNOD ALLWEDDOL
Barnwyr 6: 22 & 23

Astudiaeth 1 Dynion yr Hen Destament - Gideon

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Barnwyr 6:24-40 ac 8:1-35 1 Corinthiaid 1:26-29 Hebreaid 11:32

Clywn adroddiadau rheolaidd am broblemau yn y Dwyrain Canol. Doedd pethau ddim gwahanol yn nyddiau Gideon.

C Atebwch y cwestiynau canlynol i ganfod beth oedd yn digwydd.

Pwy oedd y gelyn? .....

Am ba hyd roedden nhw wedi bod yn goresgyn Israel? .....

Ble bu'r Israeliaid yn cuddio? .....

Beth wnaeth y gelyn? .....

Pa mor fawr oedd byddin y gelyn? .....

5

Yn eu hanobaith, galwodd yr Israeliaid ar yr Arglwydd, ac anfonodd broffwyd atynt i egluro wrthynt pam roedd Ef yn eu cosbi.

C Sut yr esboniodd y proffwyd hyn, ac ym mha adnodau mae ei eiriau i'w gweld?

Adnodau: _____

2

Roedd gan Dduw hefyd gynlluniau i'w hachub rhag eu gelynion!

C Ysgrifennwch yr atebion i'r canlynol yn y GRID GEIRIAU i ganfod beth ddigwyddodd wedyn.

1. Pwy anfonodd Duw nesaf?
2. Eisteddodd yr angel dan y dderwen yn .....
3. Galwodd yr angel Gideon yn ".... ...../rhyfelwr".
4. Gofynnodd Gideon, "Os yw'r ..... gyda ni, pam y mae hyn i gyd wedi digwydd inni?"
5. Beth oedd Gideon yn ei wneud i'r gwenith?
6. Enw'r lle ble bydd grawnwin yn cael eu gwasgu.



3

Roedd Gideon yn teimlo fod Duw wedi troi cefn ar Israel. Doedd e ddim yn deall eu bod yn haeddu cael eu cosbi. Er hynny, drwy'r angel, esboniodd Duw ei fod Ef wedi dewis Gideon i achub Ei bobl.

1

C **Rhoddodd Duw ORCHYMYN iddo. Beth oedd hwn?**



1

C **Gwnaeth Gideon ESGUS. Beth oedd hwn?**

1

C **Rhoddodd Duw ADDEWID iddo. Beth oedd hwn?**

1

C **Gofynnodd Gideon am BRAWF. Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch beth ddigwyddodd pan osododd Gideon fwyd ar y graig.**

2

Mae'r Adnodau Allweddol yn dweud wrthym fod Duw wedi siarad yn bersonol â Gideon. Roedd wedi ei alw i fod yn negesydd Iddo ac i arwain Israel yn erbyn y Midianiaid. Ond roedd Gideon o'r farn mai ef fyddai'r person olaf y byddai unrhyw un yn ei ddewis! Weithiau, pan fydd y rhai hynny ohonom sy'n Gristnogion yn cael cais i wneud rhywbeth Drosto Ef, byddwn yn hel esgusodion ac, yn union fel Gideon, yn teimlo'n wan ac yn ddiwerth! Ond efallai mai chi yw'r union berson ar gyfer y gwaith! Does dim gwahaniaeth pa mor wan rydych chi'n teimlo, os byddwch yn ymddiried yn Nuw ac yn ufuddhau i'w orchmynion, bydd Ef yn rhoi'r nerth sydd ei angen arnoch i gyflawni Ei waith. Derbyniodd Gideon y swydd.

C **Darllenwch bennod 7 a gosodwch eiriau priodol yn y bylchau i ddweud beth ddigwyddodd wedyn.**

3

Dywedodd Duw wrth Gideon am ddweud wrth ei fyddin y câi unrhyw un mewn ..... fynd adref, ac aeth ..... mil adref. Yna, gorchmynnwyd i Gideon fynd â'r fyddin i lawr at y ..... a dweud wrthynt am ..... . Erbyn y diwedd, dim ond ..... oedd ar ôl. Gwnaeth Duw hyn rhag i'r Israeliaid ..... mai nhw oedd wedi ennill y fuddugoliaeth.

Roedd Gideon yn dysgu fod rhaid iddo wneud gwaith Duw yn ffordd Duw. Roedd yr offer anarferol hefyd yn dysgu'r un wers iddyn nhw.

1

C **Beth oedd y tri darn o offer?**

C **Beth oedd eu rhyfelgri?**

1

Felly, rhoddodd Duw'r fuddugoliaeth i Gideon, y gŵr oedd yn barod i ymddiried Ynddo ac ufuddhau Iddo. Ni chredai Gideon fod hyn yn bosibl, ond pan fyddwn yn gadael i Dduw ein defnyddio, ac yn ymddiried popeth Iddo Ef, yna, gallwn oresgyn ein gelynion – temtasiwn, pechod a'r diafol.

Enw _____

DARLLENWCH
Barnwyr 13: 1-25
16: 4-31

ADNOD ALLWEDDOL
Iago 4: 7 a 8

Astudiaeth 2 Dynion yr Hen Destament - Samson

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Barnwyr 14:1-20 a 15: 1-20 1 Ioan 4:4

Yn y Darlleniadau hyn o'r Beibl, cawn ein cyflwyno i un arall o'r dynion a ddefnyddiodd Duw fel barnwr. Arweinwyr dethol Duw yn Israel oedd y barnwyr, yn y blynyddoedd cyn i'r genedl gael ei brenin cyntaf.

CROESAIR



AR DRAWS

1. Enw'r plentyn.
4. Gweddïodd y tad y byddai Duw yn anfon yr angel eto i'w ..... sut i fagu'r bachgen.
5. Erfyn nad oedd fyth i gael ei ddefnyddio ar ei ben.
8. Yn ei ddyddiau cynnar, cynhyrfwyd ef gan ..... yr Arglwydd.
9. Enw tad Samson.
10. Roedd tad Samson yn byw yn .....

I LAWR

2. Pwy ymddangosodd i wraig y dyn?
3. Byddai'r plentyn yn ....., sef un oedd wedi ei neilltuo i Dduw.
6. Ganwyd ..... iddi.
7. Offrymwyd ..... gan y tad i'r Arglwydd.

5

Ni fu erioed ddyn tebyg i Samson. Roedd ei gryfder yn rhyfeddol a bu'n arweinydd ar Israel am 20 mlynedd. (Barnwyr 15:20)

C **Llanwch y Ffeil Ffeithiau am y wraig y syrthiodd Samson mewn cariad â hi. (16: 4 ymlaen)**

Ffeil	Ffeithiau
Ei Henw:	Yr hyn roedd y Philistiaid am iddi ei wneud:
Ei Chyfeiriad:	
Ei Meistri:	Y cyflog a gynigiwyd iddi:

5

C **Beth ofynnodd y wraig i Samson?**

1

Ceisiodd deirgwaith i drechu Samson, ond methiant fu pob cynnig oherwydd iddo ddweud celwydd.

C **Enwch y tair ffordd wahanol y rhwymwyd Samson gan Delila.**

Y Ffordd Gyntaf .....

Yr Ail Ffordd .....

Y Drydedd Ffordd .....

3

Roedd Samson yn cael ei demtio i fynd yn erbyn gorchymyn Duw a roddwyd i'w rieni. (Gweler pennod 13:5).Dylai fod wedi ymwrthod â'r demtasiwn a gwrthod dweud yr ateb wrthi, ond wnaeth e ddim. Mae Satan yn aml yn ein temtio i wneud drygioni. Yr unig ffordd y gallwn ei wrthsefyll yw drwy gymorth yr Ysbryd Glân sy'n cael Ei roi i ni gan Dduw pan fyddwn yn credu yn yr Arglwydd Iesu fel ein Gwaredwr. Mae hyn yn rhoi i ni allu a grym sy'n llawer cryfach na'r diafol. (Gweler 1 Ioan 4:4)

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym i Samson ym mhen hir a hwyr ddweud y gwir am gyfrinach ei gryfder?**

1

Adnod

Ni wrthsafodd Samson demtasiwn, ac felly, yn y pen draw, bu'n anufudd yn i Air Duw.

2

C **Llanwch y bylchau.**

Mae adnodau 19 ac 20 yn esbonio i:- Samson golli ei ..... ac yna dechreuodd ei ..... gilio.

C **Atebwch GWIR neu ANWIR i'r datganiadau canlynol i gwblhau'r stori:-**

Torrodd y Philistiaid freichiau Samson oddi arno. .....

Cadwodd y Philistiaid ef yn garcharor. .....

Ni thyfodd gwallt Samson wedyn. .....

Lladdodd Samson fwy o bobl pan fu farw nag a wnaeth pan oedd yn fyw. .....

2

Ysgrifennwch yr Adnodau Allweddol .

1

Mae'r adnodau hyn yn dweud wrthym beth y dylem ei wneud pan fydd Satan yn ein temtio i wneud drygioni.

Enw _____

DARLLENWCH
Jona 1: 1-17
2: 10-3: 2

ADNOD ALLWEDDOL
Jona 2: 9

Astudiaeth 3 Dynion yr Hen Destament - Jona

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Jona 2:109 a 4:1-11 Mathew 12:38-41 1 Ioan 1:9

Mae Jona yn enw cyfarwydd arall o'r Hen Destament. Proffwyd oedd Jona. Gwaith proffwyd yw cyflwyno negeseuon Duw i bobl. Roedd Jona i ddweud wrthynt neges Duw ar gyfer y presennol a chyhoeddi Ei gynlluniau i'r dyfodol hefyd.

C **Beth oedd yr Arglwydd am i Jona ei wneud?**



1

C **Ar y map, enwch:**

1. Y ddinas y dywedodd Duw wrth Jona am fynd iddi.
2. Dechreuodd Jona ar ei daith i'r lle hwn.
3. Aeth ar fwrdd llong yn y lle hwn.





3

Credai Jona y gallai ddianc oddi wrth yr Arglwydd drwy fynd ar y daith hon, ond roedd yn anghywir. Gwyddai'r Arglwydd yn union ble'r oedd.

C **Beth wnaeth yr Arglwydd tra'r oedd Jona yn y llong?**

1

C **Gosodwch y digwyddiadau canlynol yn y drefn gywir drwy eu rhifo 1 i 5.**

..... Bwriwyd coelbren a dewiswyd Jona.
..... Bu bron i'r llong gael ei dryllio yn y storm.
..... Penderfynodd y morwyr fwrw coelbren i weld pwy oedd yn gyfrifol am y storm.
..... Deffrodd y capten Jona a dywedodd wrtho am alw ar ei Dduw.
..... Daeth ofn mawr ar y morwyr a dechreuasant alw ar eu duwiau.

5

Wedyn, cafodd Jona ei holi gan y morwyr.

C **Tynnwch linellau i gysylltu'r cwestiynau a ofynnwyd iddo a'r atebion a roddodd.**

O ble'r wyt ti'n dod?	Rwy'n dianc oddi wrth yr Arglwydd.
Beth yw dy waith?	Hebrëwr wyf fi.
Beth wyt ti'n ei wneud?	Rwy'n addoli'r Arglwydd, Duw'r Nefoedd.

3

Gwyddai Jona ei fod wedi pechu drwy anufuddhau i Dduw. Gwyddai hefyd mai ei gosb oddi wrth Dduw oedd y storm. Fyddai'r storm fyth yn darfod cyhyd ag y byddai e yn y llong!

C **Darllenwch ac ysgrifennwch 1 Ioan 1:9 a thanlinellwch air allweddol sy'n dweud wrthym beth sy'n rhaid i ni ei wneud pan fyddwn yn pechu yn erbyn Duw.**

1

C **Ym mha adnod mae Jona yn cyfaddef mai ef oedd achos y storm?**

Adnod

1

C **Ysgrifennwch y geiriau a ddefnyddiodd wrth gyfaddef hyn.**



1

Atebwch GWIR neu ANWIR i'r canlynol:-

Ceisiodd y morwyr eu gorau i rwyfo i'r lan. .....

Gweddïodd y morwyr eto ar eu duwiau. .....

Taflodd y morwyr Jona dros fwrdd y llong. .....

Dechreuodd y morwyr ofni'r gwir Dduw a chyflwyno aberthau Iddo. .....

2

Roedd Jona wedi cyffesu ei bechod! Nawr, byddai Duw yn maddau iddo ac yn ei achub mewn ffordd ryfeddol! Mae pob un ohonom wedi anufuddhau i Dduw ar lawer tro. Ydych chi erioed wedi teimlo'r angen i gyffesu eich pechod a galw ar yr Arglwydd am faddeuant? Gwnaeth Jona a'r morwyr hynny y diwrnod hwnnw. Cafodd y morwyr fordaith esmwyth ac achubodd Duw ei broffwyd, Jona. Profodd Jona, fel y dywedodd yn yr Adnod Allweddol, mai "i'r Arglwydd y perthyn gwaredu."

C **Yn eich geiriau eich hun, dywedwch sut y cafodd Jona ei achub gan Duw rhag boddi ac yna'i ddwyn yn ddiogel i'r lan.**

2

Dim ond trwy ymddiried yn yr Arglwydd Iesu a fu farw drosom ar y groes, a gofyn Iddo Ef faddau i ni ein pechodau ac arwain ein bywydau, y gallwn ni gael ein hachub rhag y gosb rydym yn ei haeddu.
COFIWCH - "Bydd pob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd yn cael ei achub." Actau2:21

Enw _____

DARLLENWCH
Nehemeia 1: 1-4
2: 1-8 4: 8-23

ADNOD ALLWEDDOL
Nehemeia 4: 20

Astudiaeth 4 Dynion yr Hen Destament - Nehemeia

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Nehemeia 2:9-20 Salm 118: 8 a 9 Effesiaid 6:10-18

Er bod llyfr Nehemeia yn agos at ganol yr Hen Destament, mae'n cofnodi hanesion am ddigwyddiadau sy'n perthyn i ddiwedd cyfnod yr Hen Destament. Roedd Israel wedi'i threchu, teml Solomon wedi'i dymchwel, a'r Israeliaid wedi bod yn byw fel caethion ym Mabilon ers blynyddoedd. Er bod rhai o'r alltudion wedi dychwelyd i ailadeiladu'r Deml yn Jerwsalem, doedd dim llawer o lewyrch ar y gwaith o atgyweirio'r ddinas.

C **Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch y neges gafodd Nehemeia o Jerwsalem.**

2

Roedd Nehemeia yn drist iawn.

C **Rhestrwch bedwar o'r pethau a wnaeth oedd yn dangos sut roedd yn teimlo.**

2

Nehemeia oedd trulliad (bwtler gwin) y Brenin Artaxerxes. Roedd hon yn swydd bwysig iawn a golygai fod Nehemeia yn aml yng ngŵydd y brenin.

C **Cwblhewch y brawddegau canlynol ac yna rhowch gylch o amgylch eich atebion yn y CHWILAIR.**

1. Ni fedrai'r brenin ddeall pam fod Nehemeia yn edrych mor..... .
2. Teimlai Nehemeia yn ..... pan ofynnodd y brenin iddo beth oedd y broblem.
3. Dywedodd Nehemeia fod y ..... lle'i magwyd bellach yn adfeilion.
4. Pan ofynnodd y brenin beth a ddymunai, ... Nehemeia.
5. Gofynnodd Nehemeia am ganiatâd i fynd i Jerwsalem i .....'r ddinas.
6. Roedd y brenin eisiau gwybod pa mor hir fyddai'r ..... .

Ll	Y	Th	Y	R	A	U
Y	O	G	O	W	F	D
G	L	Ff	F	Th	Ng	A
R	Dd	I	N	A	S	L
T	O	W	U	H	Ll	I
E	I	A	S	U	D	E
C	Dd	S	A	T	Ch	D
Ch	E	Ch	L	S	A	A
Ff	W	B	Dd	I	Ff	L
D	G	E	Th	R	B	I
Ll	E	O	R	D	E	A

7. Gofynnodd Nehemeia hefyd am y rhain er mwyn hwyluso'r daith i Jerwsalem.

C **Ysgrifennwch y rhan honno o bennod 2:8 lle mae Nehemeia yn cydnabod help Duw ym mhob peth roedd e eisiau ei gyflawni.**

1

Mae stori Nehemeia yn sicr yn ein dysgu am bwysigrwydd gweddi, ac yn ein hatgoffa fod Duw yn gwrando ac yn ateb gweddïau. Cyrhaeddodd Nehemeia yn Jerwsalem a dechreuodd adeiladau'r muriau. Ond roedd yn dal i wynebu problemau. Darganfu'n fuan fod gelynion yr Israeliaid yn gwrthwynebu adeiladu'r muriau a'u bod yn cynllwynio i ymosod ar y ddinas.

C **Edrychwch ar Bennod 4: 9. Beth wnaeth Nehemeia mewn ymateb i'r bygythiadau hyn?**

1

Dechreuodd y gweithwyr deimlo'n anhapus.

C **Beth oedd ei cwyn?**



1

C **Llanwch y geiriau sydd ar goll i ganfod beth ddigwyddodd nesaf.**

Gosodd Nehemeia wylwyr yn y mannau agored ar y muriau. Roedd gan y rhain ....., ... a ..... . Yna, dywedodd Nehemeia wrthynt am beidio ag ..... ond i ..... am yr Arglwydd sy'n nerthol, ac i ymladd dros eu teuluoedd a'u ..... . Nid ymosododd gelynion Nehemeia ac aeth y gwaith o ailgodi'r muriau yn ei flaen. Roedd ..... y dynion yn wylwyr a'r ..... yn gwneud y gwaith.

4

Edrychwch ar Effesiaid 6:10 ac 11 sy'n ein hatgoffa bod Cristnogion hefyd yn gorfod wynebu gelynion.

C **Pwy yw ein gelyn pennaf?**

1

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n ein hatgoffa bod angen i ni ymddiried yn Nuw, fel y gwnaeth Nehemeia.**

1

Ymhen hir a hwyr, gorffennwyd y gwaith, ailgodwyd y muriau ac roedd Nehemeia wedi cwblhau'r dasg gyda chymorth Duw. Fel Cristnogion, mae gennym ninnau waith i'w wneud, a brwydr i'w hymladd. Gallwn fod yn sicr o lwyddo pan wnawn fel y gwnaeth Nehemeia ac ymddiried popeth i'r Arglwydd.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120